

Mae'r iaith rydym yn ei defnyddio yn y gweithle (ac yn ein bywydau bob dydd) yn effeithio ar bawb. Rydym yn defnyddio iaith i fynegi a datgan ein hunaniaeth. Mae defnyddio iaith gynhwysol yn y gweithle yn ffactor allweddol o ran creu diwylliant cwmni cynhwysol. Gall wneud byd o wahaniaeth i helpu pob gweithiwr deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gweld.

Mae'n bwysig asesu'r iaith rydym yn ei defnyddio i gyfathrebu'n fewnol ac yn allanol yn rheolaidd. Wrth i iaith barhau i esblygu a dod yn fwy cynhwysol, mae hybu iaith gynhwysol sy'n parchu pawb yn ymrwymiad parhaus.

Nid yw'r rhestr termau isod yn un cyflawn o bell ffordd, ond mae'n diffinio nifer o'r termau a ddefnyddir o fewn y polisi ac mewn sgysiau ynglŷn â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae iaith yn esblygu drwy'r amser, ac mae'r rhestr termau hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Ein nod yw adolygu ac addasu'r rhestr termau hwn ochr yn ochr â'r polisi ac yn ôl y galw, er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r iaith a ddefnyddir yn y gweithle ac mewn cyd-destun ehangach.

## **Termau a'u Diffiniadau**

### **Gwybodaeth Hygyrch / Fformat Arall**

Fformatau dogfennau a chyfryngau y gall pobl anabl â namau penodol eu defnyddio, er enghraifft, iaith Arwyddion Prydain (BSL), Braille, disgrifiad sain, isdeitlau a thestun hawdd ei ddarllen.

### **Lleoliad hygyrch**

Adeilad sydd wedi'i ddylunio ac/neu ei addasu i sicrhau y gall pobl, gan gynnwys pobl anabl, fynd i mewn iddo a symud o gwmpas yn hawdd, mynd i'r digwyddiadau a gynhelir yno a defnyddio'r cyfleusterau.

### **Oedran**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at unigolyn sy'n perthyn i grŵp oedran penodol, all olygu pobl o'r un oed (e.e. unigolion 32 oed) neu amrediad o oedrannau (e.e. unigolion rhwng 18 a 30 oed, neu bobl dros 50 oed).

### **Pob cam rhesymol**

Mewn perthynas ag achos o aflonyddu gan gyflogai, golyga'r term hwn bopeth y gallai'r cyflogwr fod wedi'i wneud yn rhesymol i'w atal; mewn perthynas ag addasiadau rhesymol, mae 'camau rhesymol' yn derm arall am y pethau y gallai'r cyflogwr fod wedi'u gwneud yn rhesymol i gael gwared â'r anfantais.

### **Cynghreiriad**

Unigolion heterorywiol ac/neu gydryweddol sy'n cefnogi hawliau dynol cyfartal, cydraddoldeb rhywiol a mudiadau cymdeithasol LHDT, gan herio'r hyn y maen nhw'n ei ganfod yn homoffobia, deuffobia a thrawsffobia. Gellir defnyddio'r term hefyd mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig eraill (e.e. hil).

### **Gwrth-hiliaeth**

Mynd ati i nodi a dileu'r systemau, y strwythurau a'r prosesau sy'n cynhyrchu canlyniadau sylfaenol wahaniaethol ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Cydnabod, er nad ydym yn ein hystyried ein hunain yn 'hiliol', y gallwn ni, drwy wneud dim, fod yn galluogi hiliaeth i barhau.

### **Gwrthsemitiaeth**

Gelyniaeth tuag at, neu ragfarn yn erbyn Iddewon yw gwrthsemitiaeth.

### **Anrhywiol**

Unigolyn nad yw'n teimlo atyniad rhywiol at unrhyw un.

### **Awtistiaeth**

Mae anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn gyflwr sy'n ymwneud â datblygiad yr ymennydd sy'n effeithio ar sut y mae unigolyn yn amgyffred pethau ac yn cymdeithasu ag eraill.

### **Deuffobia**

Ofn neu gasineb tuag at unigolion sy'n ddeurywiol, yn banrywiol neu'n omnirywiol.

### **Deurywiol**

Unigolyn sy'n cael eu denu at fwy nag un rhywedd.

### **Mae Bywydau Du o Bwys**

Mae 'Mae Bywydau Du o Bwys' yn fudiad gwleidyddol a chymdeithasol datganoledig sy'n ceisio tynnu sylw at yr hiliaeth, y gwahaniaethu a'r anghydraddoldeb hiliol y mae pobl dduon yn eu hwynebu.

### **Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a elwir weithiau'n BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ond mae'r term 'lleiafrifoedd ethnig' yn cael ei ffafrio dros BAME neu BME. Mae'n bwysig cofio bod lleiafrifoedd ethnig hefyd yn cynnwys lleiafrifoedd Gwyn.

### **Bwtsh**

Lesbiaid y mae eu hymddangosiad a'u hymddygiad yn cael eu hystyried yn draddodiadol wrywaidd.

### **Baich Profi**

Mewn unrhyw hawliad lle mae unigolyn yn honni gwahaniaethiad, aflonyddwch neu erledigaeth dan y Ddeddf, mae baich profi eu hachos yn cychwyn gyda'r hawlydd. Unwaith y bydd yr hawlydd wedi cadarnhau digon o ffeithiau sydd, yn absenoldeb unrhyw eglurhad arall, yn dangos bod tramgwydd wedi digwydd, mae'r baich yn symud at yr ymatebydd i ddangos na wnaeth dorri gofynion y Ddeddf. Yr eithriad i'r rheol hon yw os yw'r achos yn ymwneud â throedd dan y Ddeddf hon.

### **Cydryweddol**

Rhywun y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni. Defnyddir y term 'ddim yn draws' gan rai pobl.

### **Cymunedau Lle**

Pobl sy'n gysylltiedig oherwydd y lle maen nhw'n byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cyfran sylweddol o'u hamser ynddo.

### **Cymunedau Diddordeb**

Grŵp o bobl sy'n rhannu profiad neu hunaniaeth, e.e. nodweddion gwarchoddedig.

### **Ymgynghori a Chyfranogi**

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned, 'Siarad gyda'n Cwsmeriaid a'n Cymunedau', yn cynnig fframwaith i gynnal ein holl weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n nodi'r hyn y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'n staff yn gallu bod yn rhan o lunio penderfyniadau, gwasanaethau a pholisïau. Mae gennym hefyd Gronfa Ddata Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn rhannu gwybodaeth am ymgynghoriadau.

### **Gweledigaeth a Gwerthoedd Conwy**

Cafodd Gweledigaeth a Gwerthoedd Conwy eu datblygu mewn ymgynghoriad â gweithwyr, rheolwyr ac uwch reolwyr y Cyngor. Roedd cydraddoldeb yn un o'r themâu allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad, ac mae wedi'i gynnwys yn y gwerth 'bod yn barchus a theg'. Mae ein gwerthoedd yn cynrychioli'r credoau a'r ymddygiad disgwylidig gan bawb sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

### **Y Cynllun Corfforaethol**

Datblygwyd y cynllun o ganlyniad i siarad â chymunedau a gwrando ar farn pobl Conwy. Mae'r cynllun yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y Cyngor a fydd yn cael sylw arbennig gennym dros y 5 mlynedd nesaf, er mwyn cefnogi anghenion y dinasyddion sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ac yn ymweld â hi. Mae hefyd yn cefnogi cyflawniad canlyniadau'r dinasyddion y mae pobl eu heisiau ar gyfer y sir.

### **Croeswisgwr**

Mae'r term hwn yn disgrifio unigolyn sy'n gwisgo, o leiaf yn rhannol, fel aelod o rywedd gwahanol i'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni; nid yw'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol mewn unrhyw ffordd.

### **Cwsmeriaid (gellir cyfeirio atyn nhw hefyd fel dinasyddion, trigolion ac/neu ddefnyddwyr gwasanaeth)**

Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

### **b/Byddar**

Mae unigolyn sy'n ystyried eu hunain yn fyddar gyda llythyren fach yn nodi bod ganddyn nhw amhariad sylweddol ar eu clyw. Mae nifer o bobl fyddar wedi colli eu clyw yn ddiweddarach mewn bywyd ac felly o bosib yn gallu siarad ac/neu ddarllen Cymraeg/Saesneg i'r un graddau â pherson sy'n clywed. Mae unigolyn sy'n ystyried eu hunain yn Fyddar gyda llythyren fawr yn nodi eu bod yn Fyddar yn ddiwylliannol ac yn perthyn i'r gymuned Fyddar. Mae'r rhan fwyaf o bobl Fyddar yn bobl sy'n defnyddio iaith arwyddion ac wedi bod yn fyddar ar hyd eu hoes. Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl Fyddar, ail iaith yw'r Gymraeg/Saesneg ac felly fe allai eu gallu i ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg/Saesneg fod yn gyfyngedig.

### **Camenwi**

Galw rhywun wrth yr enw a roddwyd iddyn nhw adeg eu geni er eu bod wedi newid eu henw ers hynny. Cysylltir y term hwn yn aml â phobl draws sydd wedi newid eu henw fel rhan o'u proses drawsnewid.

### **Gwahanol anghenion**

Mae hyn yn cyfeirio at y gwahanol ofynion allai fod gan bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, y mae angen eu bodloni er mwyn darparu cyfleoedd a mynediad cyfartal.

### **Gwahaniaethu (uniongyrchol)**

Trin unigolyn yn llai ffafriol o'i gymharu ag unigolyn arall oherwydd eu nodwedd warchodedig.

### **Anabledd**

Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddyn nhw nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol. Cyfeirir at yr unigolyn hwn fel person anabl.

### **Cynllun Hyderus o ran Anabledd**

Cynllun sydd â'r nod o helpu cyflogwyr i gyflogi a chadw pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd (mae'n disodli'r Cynllun Tic Dwbl).

### **Anfantais**

Niwed neu rwystr – rhywbeth y gallai'r unigolyn a effeithir ystyried yn rhesymol ei fod yn newid eu sefyllfa er gwaeth.

### **Gwahaniaethu'n anghyfreithlon**

Pan fydd cyflogwr wedi trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig (wedi gwahaniaethu yn eu herbyn) ac nad oes ganddyn nhw amddiffyniad dilys.

### **Amrywiol**

Gwahanol iawn. Yn yr ystyr o boblogaeth amrywiol, mae'r bobl yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd, ethnigrwydd a diwylliannau.

### **Amrywiaeth**

Mae amrywiaeth yn golygu cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.

### **Brenin/Brenhines Drag**

Unigolyn (dyn/dynes) sy'n ymddangos fel unigolyn o'r rhywedd arall. Fel arfer yn cyfeirio at act neu berfformiad. Nid yw hyn yn gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd mewn unrhyw ffordd.

### **Sylw Dyladwy**

Rhoi pwysigrwydd i fater penodol yn gymesur â'i berthnasedd.

### **Cyflog Cyfartal**

Talu'r un swm i bobl am waith o'r un gwerth. Mae'n anghyfreithlon i gyflogwyr wahaniaethu rhwng dynion a merched o ran eu cyflog a'u hamodau pan maen nhw'n gwneud yr un gwaith neu waith tebyg, gwaith sy'n cael ei raddio'n gyfartal neu waith o werth cyfartal.

### **Cydraddoldeb**

Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pob unigolyn yn cael yr un cyfle i wneud y mwyaf o'u bywydau a'u doniau, a chredu na ddylai unrhyw un gael llai o gyfleoedd mewn bywyd oherwydd beth, pwy neu ble y ganwyd nhw, neu oherwydd nodweddion eraill. Mae cydraddoldeb yn cydnabod bod grwpiau penodol o bobl gyda nodweddion penodol, e.e. pobl o hil benodol, pobl anabl, merched a phobl hoyw, wedi profi gwahaniaethu yn hanesyddol.

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae proses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhoi ystyriaeth systematig i effaith polisi/arfer/penderfyniad arfaethedig ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig. Gwneir hyn i sicrhau y canfyddir unrhyw arferion gwahaniaethol anghyfreithlon drwy adolygu data ac ymgysylltu/ymgyngori â'r unigolion a effeithir neu a gynrychiolir. Os caiff unrhyw arferion anghyfreithlon neu wahaniaethol eu canfod, dylid cael gwared â nhw a gwella'r polisi neu'r arfer er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac/neu wella cydberthnasoedd rhwng gwahanol grwpiau. Darperir hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb bob chwarter i swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu polisiau ac arferion yng Nghonwy.

### **Eithriadau**

Pan nad yw un o ofynion y Ddeddf yn gymwys, mewn amgylchiadau penodol.

### **Hoyw**

Person cyfunrywiol (yn cyfeirio at ddyn fel arfer) sy'n cael eu denu yn rhywiol (neu'n rhamantus) at ddynion eraill.

### **Dysfforia Rhywedd**

Term sy'n disgrifio teimlad unigolyn o anesmwythder oherwydd bod gwrthdaro rhwng eu rhyw biolegol a'u hunaniaeth rhywedd. Gall y teimlad o anesmwythder neu anfodlonrwydd fod mor ddwys fel y gall arwain at iselder a gorbryder a chael effaith niweidiol ar fywyd bob dydd yr unigolyn.

### **Hunaniaeth Rhywedd**

Synnwyr cynhenid unigolyn o'u rhywedd eu hunain, boed hynny'n wrywaidd, yn fenywaidd neu'n rhywbeth arall (gweler y term 'anneuaidd'), a allai gyfateb â'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni neu beidio.

### **Ailbennu Rhywedd**

Y broses o newid neu drawsnewid o un rhywedd i'r llall.

### **Sipsiwn a Theithwyr**

Mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu hamddiffyn dan nodwedd warchoddedig hil yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol dan y Ddeddf Cydraddoldeb i fynd ati i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, gwella cyfleoedd cyfartal a hybu cysylltiadau hiliol da ar gyfer y grŵp hwn.

### **Aflonyddu**

Ymddygiad annymunol mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig, sydd â'r bwriad neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn neu greu amgylchedd iddynt sy'n fygythiol, yn anghyfeillgar, yn ddiraddiol, yn fychanol neu'n sarhaus. Gall hefyd gynnwys ymddygiad dieisiau o natur rywiol neu fod yn gysylltiedig ag ailbennu rhywedd neu ryw. Gall yr ymddygiad fod yn ddigwyddiad untro difrifol neu fod yn 'ymddygiad cyson', h.y. mae'n digwydd nifer o weithiau.

### **Hawliau Dynol**

Hawliau dynol yw'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bob unigolyn hawl iddyn nhw. Maen nhw'n sicrhau y gall pobl fyw'n rhydd a ffynnu, cyrraedd eu potensial a bod yn rhan o gymdeithas. Maen nhw'n sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg gydag urddas a pharch. Mae gennych chi hawliau dynol am eich bod yn fod dynol, ac ni ellir mynd â nhw oddi arnoch chi.

### **Hunaniaeth**

Nodweddion a rhinweddau unigolyn sydd, ar y cyd, yn cael eu hystyried yn hanfodol i hunanymwybyddiaeth yr unigolyn hwnnw.

### **Nam**

Cyfyngiad gweithredol a allai arwain at ddiffinio unigolyn yn anabl yn unol â'r diffiniad dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Cynhwysiant**

Creu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo croeso a gwerthfawrogiad.

### **Anghydraddoldebau Canlyniad**

Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud ag unrhyw wahaniaeth mesuradwy mewn canlyniad rhwng unigolion sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth.

### **Cydgufeiriadedd**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at adnabod y ffordd y mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn rhyngweithio gyda'i gilydd, a all greu anghydraddoldebau, gwahaniaethu ac anfanteision lluosog.

### **Rhyngryw**

Mae rhyngryw yn derm ymbarél ar gyfer gwahaniaethau mewn nodweddion rhyw neu anatomeg atgenhedlu. Mae pobl rhyngryw yn cael eu geni gyda'r gwahaniaethau hyn neu'n eu datblygu yn ystod plentyndod.

### **Islamoffobia**

Ofn, casineb tuag at neu ragfarn yn erbyn crefydd Islam neu Fwslimiaid.

### **Lesbiad**

Merch gyfunrywiol neu hoyw sy'n cael ei denu'n rhywiol (neu'n rhamantus) at ferched eraill.

### **LHDT/LHDTCRh/LHDTCRhA+**

Byrfodd ar gyfer Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwestiynu (neu Cwiar), Rhyngryw, Anrhywiol a'r symbol '+', sy'n cynrychioli hunaniaethau eraill, e.e. anneuaid, panrywiol ac ati.

### **Priodas a Phartneriaeth Sifil**

Nid oes diffiniad o briodas na phartneriaeth sifil yn y Ddeddf Cydraddoldeb, ond ystyrir yn fras eu bod yn golygu pobl sydd wedi priodi mewn undeb a gydnabyddir yn gyfreithiol, naill ai'n gwpl o'r ddau ryw neu'n gwpl o'r un rhyw, neu bobl mewn partneriaeth sifil sydd mewn perthynas a gydnabyddir ac a gofrestrwyd yn gyfreithiol rhwng dau o bobl.

### **Monitro**

Monitro ar gyfer data cydraddoldeb i wirio a yw pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cymryd rhan ac yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, monitro cynrychiolaeth merched neu bobl anabl yn y gweithlu neu ar lefelau uwch o fewn sefydliadau.

### **Anneuaid**

Term ymbarél am bobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn ffitio'n syml i ddewis deuaidd o 'ddyn' neu 'ddynes'. Mae hunaniaethau anneuaid yn amrywiol, a gallant gynnwys pobl sy'n arddel rhai elfennau o hunaniaethau deuaidd, tra bod eraill yn eu gwrthod yn llwyr.

### **Cyfiawnhad Gwrthrychol**

Mae cyfiawnhad gwrthrychol yn darparu amddiffyniad ar gyfer defnyddio polisi, rheol neu arfer a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn wahaniaethu (ar sail oedran) uniongyrchol neu anuniongyrchol anghyfreithlon, ac mae'n rhaid gallu dangos bod rheswm da dros lunio'r polisi neu'r rheol - sef ei fod 'yn fodd cymesur o gyflawni nod gyfreithlon'.

### **Gofyniad Galwedigaethol**

Pan fydd yn ofyniad galwedigaethol i unigolyn fod â nodwedd warchoddedig, gellir cadw rhai swyddi ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchoddedig honno.

### **Hen/Ifanc**

Mae oedran yn nodwedd warchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n golygu na ellir trin pobl yn annheg oherwydd eu hoedran. Er dibenion ystadegol, mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio 'pobl ifanc' fel unigolion rhwng 15 a 24 oed. Caiff person hyn ei ddiffinio gan y Cenhedloedd Unedig fel unigolyn sydd dros 60 oed. Fodd bynnag, mae teuluoedd a chymunedau'n aml yn defnyddio cyfeireiriau cymdeithasol ddiwylliannol eraill, gan

gynnwys statws teuluol (neiniau a theidiau), ymddangosiad corfforol neu gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran.

### **Allan neu Ddod Allan**

Pan fydd rhywun yn cyhoeddi'n wirfoddol eu cyfeiriadedd rhywiol ac/neu eu hunaniaeth rhywedd yn gyhoeddus. Mae hwn yn ddewis personol iawn all amrywio o deimlo ofn a phryder i deimlo gorfoledd a rhyddhad.

### **Datgelu heb gydsyniad (owtio)**

Pan fydd cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu draws yn cael ei ddatgelu i rywun arall heb eu cydsyniad.

### **Pan/Panrywiol/Omnirywiol**

Term sy'n cyfeirio at rywun nad yw'n cael ei gyfyngu o ran atyniad rhywiol ac/neu ramantus at bobl eraill ar sail rhyw na rhywedd.

### **Bwlch Cyflog**

Mae'r term hwn yn ymwneud â'r gwahaniaeth mewn cyflog rhwng grwpiau o bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig e.e. y gwahaniaeth rhwng cyflog arferol dynion mewn sefydliad o'i gymharu â chyflog merched, waeth beth fo'u rôl neu lefel.

### **Rhwystrau ffisegol**

Nodwedd ffisegol adeilad neu eiddo sy'n rhoi pobl anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydyn nhw'n anabl wrth geisio cael gafael ar nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau neu gyflogaeth.

### **Cam gweithredu cadarnhaol**

Term sy'n cyfeirio at amrediad o gamau gweithredu cyfreithlon sy'n ceisio goresgyn neu leihau anfanteision (e.e. o ran cyfleoedd gwaith) y mae pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig wedi'u hwynebu, neu fodloni eu gwahanol anghenion.

### **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl geni, ac yn ymwneud â chyfnod mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Mewn cyd-destun heb fod yn ymwneud â chyflogaeth, mae amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn para am 26 wythnos ar ôl geni, ac mae hyn yn cynnwys trin merch yn anffafriol am ei bod yn bwydo ar y fron.

### **Caffael**

Dyma'r term a ddefnyddir mewn perthynas â'r amrediad o nwyddau a gwasanaethau y mae corff cyhoeddus neu awdurdod eu hangen ac yn eu darparu. Mae'n cynnwys canfod a phenodi darparwr gwasanaeth ac yna rheoli'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

### **Rhagenw**

Geiriau rydym ni'n eu defnyddio i gyfeirio at rywedd rhywun wrth sgwrsio, er enghraifft, 'fo/fe' neu 'hi'. Mae'n well gan rai pobl i eraill gyfeirio atyn nhw mewn iaith niwtral o ran rhywedd a defnyddio rhagenwau fel 'nhw' neu 'ze/zir'.

### **Cymesur**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau neu gamau sy'n briodol neu'n angenrheidiol. Bydd p'un a yw rhywbeth yn gymesur dan yr amgylchiadau yn gwestiwn o ffeithiau, ac yn golygu pwysu a mesur effaith wahaniaethol y cam yn erbyn y rhesymau drosto, a gofyn a oes yna unrhyw ffordd arall o gyflawni'r nod.

### **Nodweddion gwarchoddedig**

Dyma'r hyn sy'n sail i wahaniaethu'n anghyfreithlon. Dyma'r nodweddion: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

### **Darpariaeth, maen prawf neu arfer**

Mae nodi darpariaeth, maen prawf neu arfer yn allweddol i sefydlu gwahaniaethu anuniongyrchol. Er enghraifft, gall gynnwys unrhyw bolisiâu, penderfyniadau, rheolau, arferion, trefniadau, meini prawf, amodau, rhagofynion neu gymwysterau ffurfiol neu anffurfiol.

### **Awdurdod cyhoeddus**

Sefydliadau ac unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus – byddai hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd ac ysbytai, ysgolion, carcharau a'r heddlu, er enghraifft.

### **Swyddogaethau cyhoeddus**

Unrhyw weithred neu weithgaredd a gyflawnir gan awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus neu gyflawni dyletswyddau neu swyddogaethau o natur gyhoeddus, e.e. darparu gwasanaethau heddlu a charchar, gofal iechyd, gan gynnwys gofal preswyl i'r henoed, llunio polisi llywodraethol neu wasanaethau cynllunio'r awdurdod lleol.

### **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Y ddyletswydd ar awdurdod cyhoeddus wrth gyflawni ei swyddogaethau i roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, meithrin perthnasau da a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

### **Cwiar**

Term a ddefnyddir gan bobl sydd eisiau gwrthod labeli penodol ar gyfer cyfeiriadedd rhamantus, cyfeiriadaedd rhywiol ac/neu hunaniaeth rhywedd. Gall hefyd fod yn ffordd o wrthod normau tybiedig y gymuned LHDT (hiliaeth, maintiaeth, ablaeth ac ati). Er bod rhai pobl LHDT yn ystyried y gair yn sarhad, cafodd ei ailfeddiannu ar ddiwedd yr 80au gan y gymuned cwiar, sydd wedi'i berchnogi.

### **Hil**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at nodwedd warchoddedig hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl eu hil, eu lliw eu cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth) a'u tarddiad ethnig neu wladol.

### **Hiliaeth**

Rhagfarn, gwahaniaethiad neu elyniaeth gan unigolyn, cymuned neu sefydliad yn erbyn person neu bobl ar sail eu haelodaeth o grŵp hil neu ethnig penodol, fel arfer un sy'n lleiafrif neu ar y cyron.

### **Rhesymol**

Bydd yr hyn a ystyrir yn rhesymol yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys maint sefydliad a'i adnoddau, yr hyn sy'n ymarferol, effeithiolrwydd yr hyn a gynigir a'r amhariad tebygol a fyddai'n cael ei achosi drwy gymryd y mesur dan sylw, yn ogystal â'r cymorth ariannol sydd ar gael.

### **(Dyletswydd i wneud) Addasiadau rhesymol**

Pan fo person anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydyn nhw'n anabl, mae yna ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i gael gwared â'r anfantais honno drwy (i)

newid darpariaethau, meini prawf neu arferion, (ii) addasu neu dynnu nodweddion ffisegol neu ddarparu ffordd arall resymol o'u hosgoi, a (iii) darparu cymhorthion ychwanegol.

### **Rheoliadau**

Deddfwriaeth eilaidd a wnaed dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig (neu ddeddfwriaeth Ewropeaidd) sy'n nodi is-faterion sy'n helpu rhoi'r Ddeddf ar waith.

### **Crefydd ac/neu Gred**

Mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddo fel arfer, ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Ar y cyfan, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd rydych chi'n ei fyw er mwyn iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.

### **Darparwr Gwasanaeth**

Rhywun (gan gynnwys sefydliad) sy'n darparu gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau i'r cyhoedd yn gyffredinol neu ran ohono.

### **Rhyw**

Dyn neu ddynes.

### **Cyfeiriadedd Rhywiol**

P'un a yw atyniad rhywiol (neu ddiffyg atyniad rhywiol) person tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

### **Model Cymdeithasol o Anabledd**

Y safbwynt bod cymdeithas yn creu rhwystrau sy'n "analluogi" pobl rhag cymryd rhan lawn a chyfartal ag eraill. Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'u hanghenion unigryw, yn hytrach na'u cyflwr. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu datblygu agweddau cadarnhaol mewn cymdeithas. Mae'r iaith a ddefnyddir mewn model cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull hwn o ganolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft 'pobl anabl' yn hytrach na 'phobl ag anabledd'.

### **Argymhellion Iaith Model Cymdeithasol:**

<b>Argymhellir eich bod yn defnyddio:</b>	<b>Argymhellir nad ydych yn defnyddio:</b>
person anabl	person ag anableddau
person nad yw'n anabl	person abl / normal
nam corfforol	anabledd corfforol
defnyddiwr cadair olwyn	caeth i gadair olwyn
gofynion penodol	anghenion arbennig
anghenion dysgu ychwanegol	anghenion addysgol arbennig
person â chanser / HIV ac ati	person sy'n dioddef o ...
amhariad synhwyraidd / amhariad cyfathrebu	mud a byddar
gydag anabledd dysgu (unigol), gydag anableddau dysgu (lluosog); mae'n well gan rai pobl ag anabledd dysgu ddefnyddio 'anawsterau dysgu'	anhwylder dysgu, ag anfantais feddyliol, meddyliol ddiffygiol, â nam ar eich meddwl, isnormal
person ag epilepsi	epileptig
person gyda chyflwr iechyd meddwl	person â salwch meddwl / problemau iechyd meddwl

Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig, awtistiaeth a phobl awtistig	awtistig
dehonglydd iaith arwyddion [caiff iaith lafar ei dehongli; caiff iaith ysgrifenedig ei chyfieithu]	arwyddwr / cyfieithydd
toiled, man parcio, cyfleusterau hygrych	toiled, man parcio, cyfleusterau anabl
pobl ddall / â nam ar y golwg	y deillion
pobl F/fyddar	y byddar

### **Anfantais Economaidd-gymdeithasol**

Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.

### **Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw'r ymateb i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac mae'n nodi amcanion cydraddoldeb a chynllun gweithredu ar gyfer bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011.

### **Telerau Cyflogaeth**

Gofynion contract cyflogaeth unigolyn, y darperir ar eu cyfer naill ai'n arbennig yn y contract ei hun neu wedi'u hymgorffori drwy statud, arfer safonol neu gyfraith gyffredin ac ati.

### **Undebau Llafur**

Dyma'r sefydliadau a luniwyd i gynrychioli hawliau a buddiannau'r gweithwyr i'w cyflogwyr, er enghraifft, er mwyn gwella amodau gweithio, cyflogau neu fuddion. Maen nhw hefyd yn eirioli'n ehangach ar ran buddiannau eu haelodau ac yn gwneud argymhellion i'r llywodraeth, cyrff diwydiannol ac eraill sy'n llunio polisiau.

### **Traws / Trawsryweddol**

Term ymbarél i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un peth â'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni, neu lle mae gwrthdaro rhwng eu rhywedd a'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni. Gall pobl draws ddefnyddio un neu fwy o blith amrywiaeth eang o dermau i ddisgrifio'u hunain, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) trawsryweddol, trawsrywiol, rhywedd-cwiar, rhywedd cyfnewidiol, anneauaid, rhywedd amrywiadol, croeswisgwr, dirywedd, anrhyweddol, trydydd rhywedd, deurywedd, dyn traws, dynes traws, traws wrywaidd, traws fenywaidd a neutrois.

### **Trawsrywiol**

Yn y gorffennol roedd hwn yn derm mwy meddygol (tebyg i gyfunrywiol) i gyfeirio at rywun nad yw eu rhywedd yr un peth â'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni, neu lle mae gwrthdaro rhwng eu rhywedd a'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni. Mae'r term yn dal i gael ei ddefnyddio gan rai, ond mae'n well gan lawer ddefnyddio'r term traws neu trawsryweddol.

### **Trawswisgwr**

Mae hwn yn derm hen ffasiwn oherwydd ei ddefnydd hanesyddol fel diagnosis ar gyfer anhwylderau meddygol/iechyd meddwl. Mae Croeswisgwr wedi disodli'r term trawswisgwr. Mae'r term Croeswisgwr yn disgrifio unigolyn sy'n gwisgo, o leiaf yn rhannol, fel aelod o rywedd gwahanol i'r categori rhyw y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni; nid yw'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol mewn unrhyw ffordd.

### **Gwasanaeth TextRelay y DU**

Mae *Text Relay* yn wasanaeth cyfnewid cenedlaethol dros y ffôn ar gyfer pobl fyddar, sydd wedi mynd yn fyddar, trwm eu clyw, byddar a dall a phobl â nam ar eu lleferydd. Mae'n gadael iddyn nhw ddefnyddio ap neu ffôn testun i gael gafael ar unrhyw wasanaethau sydd ar gael ar systemau ffôn safonol.

### **Rhagfarn Ddiarwybod**

Mae rhagfarn ddiaarwybod (neu ymhlyg) yn derm sy'n disgrifio'r cysylltiadau rydym yn eu gwneud y tu hwnt i'n hymwybyddiaeth a'n rheolaeth ymwybodol. Caiff rhagfarn ddiaarwybod ei sbarduno pan mae ein hymennydd yn llunio barn ac asesiad sydyn yn awtomatig, wedi'u dylanwadu gan ein cefndir, ein profiadau personol, stereoteipiau cymdeithasol a chyddestun diwylliannol. Gall rhagfarn ddiaarwybod gael dylanwad sylweddol ar ein hagweddau a'n hymddygiad, yn enwedig tuag at bobl eraill, a gall gyfrannu at anghydraddoldeb, er enghraifft wrth ddethol a recriwtio, gwerthuso neu ddyrchafu.

Mae rhagfarn ddiaarwybod yn cyfeirio at yr anfanteision sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ynom ni oll o ganlyniad i fyw mewn cymdeithasau hynod anghyfartal. Gall rhagfarn ddiaarwybod neu ymhlyg arwain at dybiaethau greddfodol bod rhaid i nyrs fod yn ddynes neu beiriannydd fod yn ddyn, na fydd dynes Asiaidd yn gwneud arweinydd da neu y bydd dyn du yn gystadleuwr ffyrnig.

### **Anffafriol**

Defnyddir y term hwn (yn hytrach na 'llai ffafriol') pan nad oes rhaid i'r cymharydd ddangos bod rhywun wedi cael niwed neu anfantais oherwydd nodwedd warchoddedig – er enghraifft, mewn perthynas â gwahaniaethu oherwydd beichiogrydd neu famolaeth.

### **Anghyfreithlon**

Rhywbeth na chaniateir yn ôl y gyfraith (yn wahanol i 'anghyfreithiol', sy'n golygu 'wedi'i wahardd gan y gyfraith'). Gall 'anghyfreithlon' ac 'anghyfreithiol' fod yn gyfystyr weithiau, ond defnyddir 'anghyfreithlon' yn fwy cywir mewn perthynas ag anghyfiawnder sifil (yn hytrach na throseddol).

### **Afresymol**

Ddim yn rhesymol; y tu hwnt i'r hyn sy'n ymarferol. Gweler hefyd 'addasiadau rhesymol'.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg dan Safonau'r Gymraeg. Mae gan y Cyngor 167 o Safonau'r Gymraeg sy'n manylu sut y mae staff y Cyngor yn darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn i'r cwsmeriaid dderbyn gwasanaethau yn eu dewis o iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, a chaiff hyn ei gefnogi gan Bolisi Iaith Gymraeg.

### **Gweithiwr**

Mewn cyfraith cyflogaeth, mae 'gweithiwr' ar y cyfan yn gategori ehangach na 'chyflogai', ac yn cynnwys contract personol i gyflawni gwaith.

### **Senoffobia**

Atgasedd tuag at, neu ragfarn yn erbyn pobl o wledydd eraill.